# SL(6)577 – Rheoliadau Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1, Rhif 2, Rhif 4, Rhif 6 a Rhif 7) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio pum cyfres o Reoliadau safonau'r Gymraeg presennol fel ei bod yn agored i gyrff ychwanegol orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae hyn yn galluogi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon.

Mae'r Rheoliadau yn nodi safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau llunio polisi, safonau gweithredol a safonau cadw cofnodion i fod yn gymwysadwy yn benodol i:

- Awdurdod Cyllid Cymru
- Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol
- Cymwysterau Cymru
- Panel Dyfarnu Cymru
- Awdurdodau Iechyd Arbennig.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Fel y nodir gennym uchod, ystyr hyn yw bod yn rhaid gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd, a dim ond os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft y gellir gwneud y Rheoliadau.

Fodd bynnag, mae rhagymadrodd y Rheoliadau drafft hyn yn cynnwys y testun a ganlyn (ein pwyslais ni):

*Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 26, 27, 39 a 150(5) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(1),* ***ac wedi cael cymeradwyaeth Senedd Cymru*** *yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur hwnnw, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.*

Mae'r geiriad hwn yn awgrymu mai Gweinidogion Cymru neu'r pwerau galluogi sy'n cael cymeradwyaeth y Senedd. Fodd bynnag, y **Rheoliadau drafft** sy'n cael cymeradwyaeth y Senedd.

Nid yw'n glir pam y dewisodd Llywodraeth Cymru y geiriad hwn yn y rhagymadrodd ac nid y geiriad safonol, cydnabyddedig a geir mewn offerynnau cadarnhaol drafft eraill sy'n ei gwneud yn glir mai'r offeryn drafft y mae angen ei gymeradwyo gan y Senedd. Er enghraifft, mae Rheoliadau Safonau Marchnata Wyau Maes (Diwygio) (Cymru) 2025[1] yn cynnwys y geiriad clir a ganlyn:

*Yn unol ag adran 50(6) o'r Ddeddf, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.*

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol:

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y gwaith drafftio hwn yn ddiffygiol, ac mae'r cyfeiriad at adran 150(2) o'r Mesur yn ei gwneud yn glir mai'r offeryn statudol drafft sy'n cael cymeradwyaeth.

Defnyddir y geiriad hwn yn y rhagymadrodd ym mhob un o'r wyth set o Reoliadau Safonau sydd eisoes yn bodoli.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

---

[1] Gosodwyd ar 28 Ionawr 2025.